Ysgol y Dyffryn Conwy
Swydd Ddisgrifiad Athro / Athrawes Dyslecsia
Graddfa Cyflog Athrawon

Swydd: Athro/ Athrawes Dyslecsia

Graddfa Swydd: Graddfa Cyflog Athrawon

Yn atebol i: Y Pennaeth a'r Corff Llywodraethol drwy Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Uwch Dîm Arwain

Prif Bwrpas y Swydd:

- Bydd yr athro / athrawes yn addysgu yn yr adran Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- O dan arweiniad y Pennaeth Adran, bydd yr Athro / Athrawes yn:

    - Gweithredu gweledigaeth a chyfrannu'n llawn i gyfeiriad strategol yr adran a'r ysgol.
    - Gweithredu yn unol â pholisiau, nodau ac amcanion yr adran a'r ysgol.
    - Cynllunio, paratoi, addysgu ac asesu gwaith o safon uchel ar gyfer y dosbarthiadau maent yn eu haddysgu.
    - Cydweithio'n agos gydag Arweinwyr Cynnydd, Swyddogion Bugeiliol, Arweinwyr Cwricwlaidd, ac aelodau eraill o'r staff addysgu a chefnogol.

- Bydd gan yr athro/ athrawes gyfrifoldeb addysgu o hyd at 90% amserlen ysgol.
- Gall fod yn rhaid i ddeilydd y swydd ymgymryd â dyletswyddau sydd wedi eu datganoli gan y Pennaeth.

Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth

Disgwylir i ddeilydd y swydd i ymrwymo'n llawn i'r 'Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth' ac i ymgorffori y gwerthoedd ac ymagweddau cysylltiedig.

- **Safonau Proffesiynol Addysg ac Arweinyddiaeth:**
    - Y Safon Addysgeg effeithiol… mae addysgu a dysgu'n holl bwysig
    - Y Safon Cydweithredu… gan sicrhau y caiff addysgeg effeithiol ei lledaenu
    - Y Safon Arloesi… datblygu addysgeg
    - Y Safon Arweinyddiaeth… helpu i gynyddu addysgeg effeithiol
    - Y Safon Dysgu Proffesiynol … datblygu addysgeg ymhellach

- **Gwerthoedd ac Ymagweddau**:

- Iaith a diwylliant Cymru
- Hawliau Dysgwyr
- Hawl Broffesiynol
- Rôl yn y system
- Dysgwr Proffesiynol
- Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol

Cyfrifoldebau a Dyletswyddau

Prif Gyfrifoldebau'r Swydd

- Asesu a Monitro. Cynnal asesiadau diagnostig i adnabod cryfderau ac anawsterau disgyblion ym maes llythrennedd a phrosesu ffonolegol.
- Ymyriadau Arbenigol. Cynllunio a darparu sesiynau dysgu strwythuredig, aml-synhwyraidd un-i-un neu mewn grwpiau bach.
- Datblygu Cynlluniau. Cydweithio â'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY / ALNCo) i lunio ac adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU / IDP) dysgwyr gyda dyslecsia.
- Cynghori Staff a Rhieni. Darparu hyfforddiant a strategaethau ymarferol i athrawon dosbarth a chynorthwywyr dysgu er mwyn sicrhau bod yr ystafell ddosbarth yn "gyfeillgar i ddyslecsia".

Rhinweddau a Gwybodaeth

O dan arweiniad y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, bydd yr Athro/ Athrawes yn:

- Cyfathrebu gweledigaeth yr adran a'r ysgol yn effeithiol.
- Arwain trwy esiampl, datblygu a chyfathrebu gwerthoedd clir a phwrpas moesol, a ffocysu ar ddarparu addysg rhagorol i bob dysgwr.
- Adeiladu perthynas gadarnhaol gyda phob aelod yng Nghymuned yr Ysgol gan arddangos agweddau cadarnhaol tuag atynt.
- Sicrhau eich bod yn gyfredol gyda datblygiadau mewn addysg a bod gennych ymwybyddiaeth dda o systemau addysg yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Ymroi'n llwyr i arddangos perfformiad rhagorol yng nghyd-destun Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.
- Rhoi sylw dyledus i'ch dysgu proffesiynol a'ch datblygiad proffesiynol eich hunain.

Dysgwyr

O dan arweiniad y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, bydd yr Athro/ Athrawes yn:

- Mynnu'r safonau uchaf yn agweddau at ddysgu ac ymddygiad dysgwyr, gan greu diwylliant addas o fewn eich ystafell dosbarth.
- Sefydlu diwylliant dryloyw, agored a chefnogol yn eich ystafell ddosbarth lle mae dysgwyr yn llawn cymhelliant ac mae ganddynt gefnogaeth ar gyfer datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth.
- Sicrhau bod addysgu rhagorol yn digwydd o fewn eich ystafell ddosbarth, drwy wneud defnydd llawn o strategaethau dysgu ac addysgu effeithiol.

- Sicrhau bod her briodol yn cael ei gynnig i bob dysgwr, boed pa bynnag gefndir neu allu, drwy gynllunio a pharatoi cyrsiau a gwersi o safon uchel.
- Cydweithio gyda Cymorthddion ADY a Chynhwysiad i gynnig addysgu sy'n cynnig her a chefnogaeth briodol i ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol penodol.
- Ymrwymo i alluogi dysgwyr i dderbyn adborth adeiladol ac ystyriol sydd yn eu helpu i wneud cynnydd drwy ddefnydd effeithiol o strategaethau asesu ffurfiannol a chrynodol.

Systemau a Phrosesau

O dan arweinaid y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, bydd yr Athro/ Athrawes yn:

- Gweithredu er mwyn datblygu diwylliant o addysgu a dysgu Rhagorol o fewn eich Adran.
- Gweithredu yn unol â systemau, trefniadaeth a phrosesau'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys:
    - Cofnodi ac adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr
    - Defnydd rheolaidd o systemau cofrestru, pwyntiau clod/ ymddygiad yr ysgol
    - Defnydd rheolaidd a phwrpasol o system gyfathrebu mewnol yr ysgol.
- Darparu amgylchedd diogel, trefnus a chefnogol ar gyfer dysgwyr o fewn eich ystafell ddosbarth sydd yn ffocysu ar ddiogelu dysgwyr ac yn mynnu'r safonau ymddygiad gorau.

Yr Ysgol Hunan-Wella

O dan arweiniad y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, bydd yr Athro/ Athrawes yn:

- Bod yn awyddus ac yn agored i weithio gydag adrannau eraill o fewn yr ysgol ac hefyd gyda chynrychiolwyr o ysgolion a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau deilliannau rhagorol i'w dysgwyr.
- Datblygu perthnasoedd effeithiol gyda chydweithwyr, o fewn a thu allan i'r ysgol.
- Ysbrydoli a dylanwadu ar eraill i gredu ym mhwysigrwydd creiddiol addysg ym mywydau'r pobl ifanc ac i hyrwyddo gwerth addysg.

Dyletswyddau Cyffredinol

O dan arweiniad y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, bydd yr Athro/ Athrawes yn:

- Cyflawni dyletswyddau mewn perthynas â gweithdrefnau diogelu a lles yr ysgol.
- Ymgorffori gwerthoedd, diwylliant ac ethos yr ysgol.
- Cyflawni dyletswyddau proffesiynol Athro/ Athrawes Prif Raddfa
- Cyfrannu at gyfarfodydd perthnasol.
- Dilyn polisiau'r ysgol yn llawn.
- Bydd disgwyl i Athrawon Newydd Gymhwyso ddilyn, a chyfrannu at raglen anwytho'r ysgol.
- Unrhyw ofynion rhesymol ar gais y Pennaeth.

Mae'r apwyntiad yn ddarostyngedig i amodau cyfredol cyflogaeth athrawon a gynhwysir yn Nogfen Cyflogau ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, y safonau gofynnol ar gyfer Statws Athrawon Cymwys a deddfwriaeth gyfredol arall.

Ysgol Dyffryn Conwy
Manyleb Person

Swydd: Athro / Athrawes Dyslecsia - Prif Raddfa

Graddfa Swydd: Graddfa Cyflog Athrawon

Yn atebol i: Pennaeth, UDA, Pennaeth Adran a'r Corff Llywodraethol

Disgwylir i'r unigolyn llwyddianus gyflawni'r dyletswyddau canlynol:		
Meini Prawf	**Rhinweddau Angenrheidiol**	**Rhinweddau Dymunol**
Cymwysterau a Hyfforddiant	• Statws Athro Cymwysiedig • Cofrestriad CGA cyfredol • Gwiriad DBS Estynedig • Dysgu Proffesiynol/ Datblygiad Proffesiynol perthnasol ym maes dysgu ac addysgu. • Cymhwyster ôl-raddedig mewn Dyslecsia / Anawsterau Dysgu Penodol (megis Lefel 5 neu Lefel 7 AMBDA / APC), neu barodrwydd i hyfforddi tuag ato.	• Cymwysterau Proffesiynol eraill e.e. gradd meistr mewn ymarfer addysgiadol ayb.
Profiad	• Tystiolaeth o Brofiad Dysgu perthnasol i'r swydd (o fewn y pwnc / pynciau) yn cynnwys cwrs Profiad Dysgu yn y prif bwnc / Rhaglen Addysgu Athrawon cofrestredig	• Profiad o fod yn gweithio o fewn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn swydd bresennol neu flaenorol.
Sgiliau a Gwybodaeth	• Dealltwriaeth dda o gynllunio cwricwlaidd, asesu a monitro cynnydd dysgwyr. • Ymwybyddiaeth cadarn o rinweddau dysgu ac addysgu effeithiol ac ymrwymiad clir i'w datblygu ymhellach. • Ymwybyddiaeth gadarn o 'Cwricwlwm i Gymru' a'i effaith ar ddysgu ac addysgu. • Gwybodaeth a phrofiad o ddefnyddio technolegau datblygol i gefnogi dysgu ac addysgu. • Gwybodaeth a phrofiad o strategaethau rheoli ymddygiad effeithiol. • Dealltwriaeth gadarn o brosesau a	• Ymwybyddiaeth a phrofiad o weledigaeth ac egwyddorion craidd Ysgol Dyffryn Conwy. • Y gallu i gyfrannu at gyfoethogi bywyd yr ysgol drwy weithgareddau allgyrsiol.

	gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant. • Gweithredwr arloesol, hyblyg a threfnus. • Y gallu i gyfathrebu'n ardderchog ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg. • Sgiliau Rhyngbersonol rhagorol a'r gallu i adeiladu perthnasoedd gwaith effeithiol. • Sgiliau TGCh da iawn	
Rhinweddau Personol	• Ymrwymiad clir i addysg Gymraeg • Gweledigaeth addysgiadol personol cryf ac ymrwymiad llawn i les dysgwyr. • Ymrwymiad ac ysgogiad i sicrhau deilliannau rhagorol a chynhwysiad i bob dysgwr. • Ymrwymiad i warchod a hyrwyddo ethos, diwylliant a gwerthoedd yr ysgol. • Y gallu i feddwl yn greadigol, i ddatrys problemau ac i wneud penderfyniadau sydd yn seiliedig ar farn gadarn. • Yn arddangos proffesiynoldeb, teyrngarwch ac hygrededd. • Ymrwymiad llawn i ymuno ym mywyd yr ysgol, yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol. • Y gallu i weithio'n effeithiol o dan bwysau, dangos dycnwch, agwedd gadarnhaol ac i flaenoriaethu ac addasu'n fedrus. • Ymrwymiad i sicrhau cyfrinachedd ar bob achlysur. • Ymrwymiad i ddiogelu a cydraddoldeb.	